# CYFRAITH AILGYLCHU YN Y GWEITHLE YNG NGHYMRU

## Gweminar ar gyfer casglwyr gwastraff

7 Chwefror 2024

wrap Cymru

Cymru yn ailgylchu
Wales recycles

Gweithredu ar Hinsawdd Cymru
Climate Action Wales

# Cynnwys

## Cyfraith Ailgylchu yn y Gweithle yng Nghymru


- Cyflwyniad
- Y gyfraith newydd
- Cyngor sydd ar gael i gasglwyr gwastraff
- Cyngor i'ch cwsmeriaid
- Astudiaeth achos

# Ynglŷn â WRAP

- Sefydliad anllywodraethol sy'n gweithredu ar newid hinsawdd yw WRAP (the Waste and Resources Action Programme), sy'n gweithio'n fyd-eang ar fynd i'r afael ag achosion yr argyfwng hinsawdd a rhoi dyfodol cynaliadwy i'r blaned. Fe'n sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig yn 2000; rydym yn gweithio mewn 40+ o wledydd erbyn hyn.
- Yn gweithio ym mhedwar ban byd gyda llywodraethau, busnesau, a dinasyddion, a'n cenhadaeth yw gwneud y byd yn lle mwy cynaliadwy. Rydym yn tynnu pobl ynghyd, rydym yn gweithredu ar y ffeithiau, ac rydym yn sbarduno newid.
- Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth i roi'r gyfraith Ailgylchu yn y Gweithle newydd ar waith

# Gwybodaeth ymarferol ar gyfer y gweminar




- Da chi, gofynnwch gwestiynau – defnyddiwch y botwm Q&A
- Fe wnawn ateb cwestiynau ar y diwedd
- Os bydd unrhyw gwestiynau nad ydym yn eu cyrraedd, byddwn yn anfon ymatebion ar ôl y gweminar
- Byddwn yn rhannu recordiad o’r gweminar
- Bydd copi o’r sleidiau ar gael (yn Gymraeg a Saesneg)

# Rheoliadau newydd – 6ed Ebrill 2024*

- Bydd angen i holl weithleoedd, fel busnesau, y sector cyhoeddus, ac elusennau, wahanu eu deunyddiau ailgylchadwy yn yr un modd ag y mae'r rhan fwyaf o aelwydydd yn ei wneud eisoes.
- Gwaharddiadau ar waredu holl wastraff bwyd i garthffosydd o eiddo annomestig.
- Gwaharddiadau ar fathau penodol o ffrydiau gwastraff ailgylchadwy ar wahân rhag mynd i gyfleusterau llosgi a safleoedd tirlenwi.

Mae'n berthnasol i holl gasglwyr a phroseswyr gwastraff ac ailgylchu sy'n rheoli gwastraff sy'n debyg i wastraff domestig o weithleoedd.

** Mae gan ysbytai (y GIG a phreifat) ddwy flynedd ychwanegol i gydymffurfio â'r gofynion gwahanu. Mae'r gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd yn berthnasol o 6ed Ebrill 2024.*

# Gwastraff sy'n debyg i wastraff domestig

- Deunyddiau gwastraff fel y rhai a geir mewn cartrefi domestig
- Fe'u cesglir o gartrefi fel arfer gan awdurdodau lleol
- Hefyd yn cynnwys nwyddau trydan gwastraff bach a thecstilau heb eu gwerthu

Nid yw'n cynnwys:

- Gwastraff adeiladu
- Gwastraff diwydiannol
- Gwastraff amaethyddol

Heblaw am ddeunyddiau gwastraff a ailgylchir yn gyffredin fel y rhai a geir mewn cartrefi domestig.








# Pam?

- Mae Cymru eisoes yn dda iawn am ailgylchu yn y cartref, ac yn 1af ymhlith cenhedloedd y Deyrnas Unedig am ailgylchu o gartref – 65%.
- 3edd genedl orau'r byd am ailgylchu o gartref.
- Y nod yw sicrhau cyfraddau ailgylchu uchel ym mhob sector, nid o gartrefi'n unig.
- Gellid ailgylchu mwy na 70% o'r deunyddiau yn y ffrwd wastraff fasnachol.



# Pam?

**Mae ailgylchu’n lleihau allyriadau carbon**

- Mae 45% o allyriadau carbon yn ganlyniad i’r nwyddau a brynwn
- Daw 90% o golled bioamrywiaeth a straen dŵr o echdynnu adnoddau

Mae cynyddu ailgylchu hefyd:

- yn cynyddu symiau ac ansawdd deunydd eilgylch y gall cynhyrchwyr yng Nghymru ei ddefnyddio, ac yn lleihau’r defnydd o ddeunyddiau crai;
- yn cefnogi gweithleoedd i leihau eu gwastraff ac arbed arian, o bosibl;
- yn helpu’r economi greu Cymru werddach.

# Pam?

**Bydd hyn yn galluogi system ailgylchu ble bynnag mae unrhyw un yn gweithio, yn gorffwys, neu’n chwarae.**

# Pam gwahanu deunyddiau?

- I hybu ailgylchu o ansawdd dda
- Mae’n fwy tebygol o arwain at ailgylchu dolen gaeedig
- Gwell canlyniadau amgylcheddol

# PWY?

Yn cynnwys:

- eiddo amaethyddol;
- bariau a thai cyhoeddus;
- lletyai gwely a brecwast, gwestai;
- arosfannau bysiau, gorsafoedd rheilffordd, porthladdoedd, meysydd awyr, hofrenfeydd;
- meysydd gwersylla a pharciau carafanau (ond nid carafanau unigol);
- cartrefi gofal, cartrefi gofal preswyl a chartrefi nyrsio;
- sinemâu;
- canolfannau cymunedol a neuaddau pentref;
- safleoedd adeiladu;
- sefydliadau addysg fel prifysgolion, colegau ac ysgolion;
- lleoliadau adloniant a chwaraeon, yn cynnwys canolfannau hamdden;
- ffatrïoedd;
- setiau cynhyrchu ffilm a theledu awyr agored;
- modurdai ar gyfer cynnal a chadw a thrwsio cerbydau;
- canolfannau garddio;
- adeiladau treftadaeth;
- parciau a chyrchfannau gwyliau;
- ysbytai;
- llyfrgelloedd ac amgueddfeydd;
- swyddfeydd;
- marchnadoedd awyr agored;
- fferyllfeydd, meddygfeydd doctoriaid, deintyddfeydd, swyddfeydd optometryddion, optegwyr, podiatryddion a chyfleusterau gofal sylfaenol eraill;
- mannau addoli;
- carchardai;
- bwytai a chaffis;
- gorsafoedd gwasanaeth a gorsafoedd petrol;
- siopau a chanolfannau siopa;
- meysydd sioeau;
- meysydd chwaraeon a stadia;
- tecawês a gwerthwyr bwyd symudol;
- theatrau a lleoliadau celf;
- lleoliadau ar gyfer digwyddiadau dros dro fel gwyliau a sioeau, yn cynnwys digwyddiadau awyr agored;
- warysau; a
- gweithdai.

Os mai presenoldeb ar-lein yn bennaf sydd gennych, bydd angen ichi gydymffurfio â'r newidiadau ar gyfer unrhyw eiddo yr ydych yn ei ddefnyddio serch hynny.

# Mae tair rhan i'r cyfreithiau newydd

1. Y gofynion i wahanu
2. Gwaharddiadau ar losgi a thirlenwi
3. Gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd



# 1. Y gofynion i wahanu

Bydd angen casglu'r deunyddiau canlynol ar wahân:

- Papur a cherdyn
- Gwydr
- **Metel, plastig, a chartonau** (a deunyddiau eraill tebyg, er enghraifft, cwpanau coffi),
- **Bwyd** – dim ond ar gyfer mannau sy'n creu mwy na 5kg yr wythnos o wastraff bwyd
- Cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach (sWEEE) heb eu gwerthu
- Tecstilau heb eu gwerthu



**Deunyddiau i'w cadw ar wahân pan fyddant yn cael eu cyflwyno i'r casglwr gwastraff**
**Deunyddiau ailgylchadwy a gasglwyd ar wahân i gael eu cadw ar wahân a dim eu cymysgu**

# Cod Ymarfer

- [Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu: Cod Ymarfer Cymru | LLYW.CYMRU]

- Canllawiau ymarferol ar sut i gydymffurfio.

- Mae’n dderbyniadwy fel tystiolaeth mewn unrhyw achos cyfreithiol a rhaid ei ystyried gan lys wrth benderfynu ar gwestiynau perthnasol.



# Gofynion gwahanu'r casglwr

- Casglu pob ffrwd wastraff ar wahân
- Rhaid i'r gwaith casglu a thrin y gwastraff wedi hynny fod yn ddigon i sicrhau bod y deunyddiau'n parhau i fod ar wahân
- Oni bai eich bod yn Awdurdod Lleol, nid oes raid i chi gasglu'r ystod lawn o ffrydiau gwastraff ailgylchadwy

# Gwydr

| Gwydr | |
|---|---|
| *Beth ddylid ei roi yn y ffrwd wastraff:* | *Beth NA ddylid ei roi yn y ffrwd wastraff:* |
| Poteli gwydr a ddefnyddir fel pecynnu<br>Jariau gwydr a ddefnyddir fel pecynnu<br><br>ond gan eithrio unrhyw wastraff sydd wedi'i gategoreiddio fel gwastraff peryglus o dan reoliad 6 o Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 neu sy'n cynnwys gweddillion gwastraff neu sylweddau sydd wedi'u categoreiddio fel rhai peryglus o dan reoliad 6 o'r Rheoliadau hynny neu sydd wedi'i halogi gan y gweddillion hynny. | Llestri (yn cynnwys cerameg a tsieina)<br>Gwydrau yfed<br>Llestri coginio gwydr a cherameg<br>Bylbiau golau<br>Caeadau metel ar jariau neu dopiau metel poteli (y dylid eu rhoi yn y ffrwd fetel)<br>Drychau<br>Poteli farnais ewinedd<br>Dalenni gwydr (gan gynnwys cwarelau ffenestri, gwydr ffrâm llun, sgriniau gwynt ceir) |

Atodiad 1: Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu: Cod Ymarfer i Gymru | llyw.cymru

# 2. Gwaharddiadau ar losgi a thirlenwi

O 6 Ebrill bydd y gwaharddiadau canlynol yn weithredol:

Llosgi (deunyddiau a gasglwyd ar wahân)

- Papur a cherdyn
- Metelau
- Plastig
- Gwydr
- Cartonau
- Bwyd
- Holl sWEEE
- Tecstilau heb eu gwerthu

Tirlenwi (deunyddiau a gasglwyd ar wahân)

- Papur a cherdyn
- Metelau
- Plastig
- Gwydr
- Cartonau
- Bwyd
- Holl sWEEE (yn cynnwys y rhai nas gwerthwyd)
- Holl decstilau (yn cynnwys y rhai nas gwerthwyd)

Gwaharddiad ar anfon <u>holl</u> wastraff pren o eiddo annomestig a domestig i dirlenwi

# Gwaharddiadau llosgi a thirlenwi – tecstilau a sWEEE

- Mae’r gwaharddiadau gwahanu i gynhyrchwyr gwastraff yn berthnasol i decstilau a sWEEE HEB EU GWERTHU yn unig.
- Mae’r gwaharddiad tirlenwi a thirlenwi yn berthnasol i’r holl ddeunyddiau perthnasol pan fônt wedi’u casglu ar wahân (o unrhyw ffynhonnell) at ddiben paratoi ar gyfer ailddefnyddio neu ailgylchu.
- Mae’n berthnasol p’un a oedd cyflwyno a chasglu ar wahân yn ofyniad cyfreithiol neu’n ddewis.

| | |
|---|---|
| sWEEE | Wedi’i wahardd o dirlenwi a llosgi |
| Tecstilau | Wedi’u gwahardd o dirlenwi. Bydd angen i decstilau a gasglwyd ar wahân (heblaw am decstilau heb eu gwerthu) na ellir eu hailddefnyddio neu eu hailgylchu fynd i gael eu llosgi. |

# 3. Gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd

- Gwaharddiad ar waredu holl wastraff bwyd i garthffosydd yn cynnwys drwy beiriannau mathru, dad-ddyfrio neu driniaeth ensymig.
- Bydd hyn yn dargyfeirio gwastraff bwyd o gael ei waredu ac yn ei anfon i Dreulio Anaerobig (*Anaerobic Digestion*/AD) ac yn cynhyrchu ynni adnewyddadwy.
- Gwastraff bwyd i gael ei gasglu ar wahân yn y ffynhonnell o holl weithleoedd sy'n cynhyrchu 5kg neu fwy fesul wythnos.





# Gorfodi'r cyfreithiau newydd hyn

- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr bod deunyddiau yn cael eu gwahanu a'u casglu'n gywir, a bod y gwaharddiad ar anfon ailgylchu i dirlenwi neu i'w losgi yn cael ei ddilyn.
- Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr bod y gwaharddiad ar wastraff bwyd yn mynd i garthffosydd yn cael ei ddilyn.
- Os nad ydych yn cydymffurfio â'r gyfraith, gallai olygu dirwy i'ch gweithle.
- Mae meddianwyr eiddo yn gyfrifol am weithredoedd eu staff ac yn atebol amdanynt.

# Sut i Baratoi – cyngor i gasglwyr gwastraff

**Darllenwch y Cod Ymarfer – mae'n cynnwys yr holl fanylion ar sut i gydymffurfio â'r rheoliadau**

Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu: Cod Ymarfer Cymru | LLYW.CYMRU



# Cyngor i gasglwyr gwastraff – 1

- Cyfathrebu gyda'ch cwsmeriaid
  - Ffrydiau newydd – cynwysyddion ac amlder casgliadau
  - Labelu'r ffrydiau'n glir
  - Cynnig cyngor ar osgoi halogiad
  - Sut gallant gefnogi eu staff a chwsmeriaid i ddefnyddio'r gwasanaeth yn gywir


- Mae deunyddiau ar gael am ddim gan WRAP

# Cyngor i gasglwyr gwastraff – 2

- Gwybodaeth ychwanegol i gwsmeriaid
  - Cyrchfannau terfynol y deunyddiau a gesglir

- Rhaid i'r modd o wahanu fod yn ddigonol i gadw'r ffrydiau wedi'u gwahanu ar wahân
- NI argymhellir bagiau goroesi
- Cynllunio mesurau i'w cymryd pe na fydd cwsmeriaid yn cydymffurfio
  - darparu cyngor ac arweiniad
  - yn y pen draw, mae opsiwn i wrthod casglu deunydd wedi'i halogi'n drwm


# Sut i Baratoi – cyngor i'ch cwsmeriaid




- Gwefan Llywodraeth Cymru
- Canllawiau cyffredinol ar y newidiadau
- Cod Ymarfer
- [Ailgylchu yn y gweithle | LLYW.CYMRU](https://www.llyw.cymru/ailgylchu-yn-y-gweithle)
- https://www.llyw.cymru/ailgylchu-yn-y-gweithle

# Cymorth gan WRAP Cymru

## Gwefan 'Y Busnes o Ailgylchu' newydd




busnesoailgylchu.com

# Eiconau Deunyddiau

[Ailgylchu yn y Gweithle: darluniau ar gyfer arwyddion a chynwysyddion ailgylchu | WRAP (wrapcymru.org.uk)]













GWASTRAFF BWYD
FOOD WASTE
Ie plis
Yes please
Tea bags
Coffee grounds
Fruit & veg peelings
Unwanted leftovers
Dim diolch
No thank you
Cymru yn ailgylchu
Wales recycles
wrap


METELAU, PLASTIGION A CHARTONAU
METALS, PLASTICS & CARTONS
Ie plis
Yes please
Dim diolch
No thank you
Cymru yn ailgylchu
Wales recycles
wrap


CARDBORD A PHAPUR
CARDBOARD & PAPER
Ie plis
Yes please
Cardbord
Cardboard
Papur swyddfa
Office paper
Amlenni
Envelopes
Papurau newydd
Newspapers
Cylchgronau
Magazines
Dim diolch
No thank you
Cymru yn ailgylchu
Wales recycles
wrap


POTELI A JARIAU GWYDR
GLASS BOTTLES & JARS
Ie plis
Yes please
Poteli gwydr
Glass bottles
Jariau gwydr
Glass jars
Dim diolch
No thank you
Cymru yn ailgylchu
Wales recycles
wrap

# Posteri

# Posteri Hawdd eu Haddasu







wrap Cymru

# Canllawiau cyffredinol

Canllaw syml ar y wefan ar gyfer busnesau o bob math:

- Amlinelliad o'r cyfreithiau newydd
- Yn cynnig tips ymarferol ar sut i baratoi
  - biniau
  - iechyd a diogelwch
  - gweithio gyda chasglwyr gwastraff
- Y gefnogaeth sydd ar gael

# Canllawiau ar gyfer sectorau penodol






## Canllawiau ar gyfer y sector addysg

Newid sector

Dylid darllen y canllaw hwn ar y cyd â **Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu: Cod Ymarfer Cymru**. Mae'r canllaw hwn yn darparu cyngor ategol ar gyfer sectorau unigol ac ni ddylid ei ddarllen fel canllaw ar ei ben ei hun.

Mae'r canllaw hwn ar gyfer holl leoliadau addysg yng Nghymru yn cynnwys ysgolion y wlad ac ysgolion preifat, ynghyd â sefydliadau addysg bellach ac uwch fel colegau a phrifysgolion.

### Yn y canllaw hwn


- Pam mae angen ichi ailgylchu?
- Atal gwastraff yn y lle cyntaf
- Sut i gydymffurfio â'r gyfraith ailgylchu newydd
- Gwastraff bwyd a hylendid
- Adnoddau
- Sut i ddeall eich gwastraff ac ailgylchu'n well
- Sut i gydymffurfio â'r Gyfraith Ailgylchu Newydd
- Lle ar gyfer eich biniau?
- Ymgysylltu â staff a disgyblion


### Trosolwg o'r cynnwys

# Canllawiau ar gyfer Sectorau

# Gweminar au WRAP Cymru

**Canllawiau penodol ar gyfer sectorau, ar sut i gydymffurfio â'r rheoliadau newydd ar gyfer y sectorau canlynol:**

- Busnesau bach a chanolig (SME) – 30 Ion 10yb
- Cyfleusterau adloniant a hamdden (yn cynnwys meysydd gwersylla, chalets, cabanau gwyliau, gwestai, carafanau) 31 Ion 10am
- Manwerthu – 6 Chwe 10yb
- Lleoliadau preswyl (yn cynnwys cartrefi gofal) – 6 Chwe 2yh
- Lletygarwch a gwasanaethau bwyd – 7 Chwe 10yb
- **Casglwyr Gwastraff – 7 Chwe 2yh**
- Digwyddiadau awyr agored – 8 Chwe 2yh
- Lleoliadau addysg a phrifysgolion – 20 Chwe 10am

# Casgliadau gwastraff bwyd

- Mae'n rhaid i safleoedd sy'n cynhyrchu mwy na 5kg o fwyd mewn unrhyw gyfnod 7 diwrnod gael casgliadau gwastraff bwyd.
- Caiff safleoedd sy'n cynhyrchu llai na 5kg ddewis cael casgliadau gwastraff bwyd neu ddefnyddio'r bin gwastraff na ellir ei ailgylchu ar gyfer gwastraff bwyd.

# Gweithleoedd sy’n creu ac yn trin gwastraff bwyd

- Gwestai
- Bwytai
- Caffis
- Tecawês
- Busnesau arlwyo (yn cynnwys y rhai mewn digwyddiadau fel stondinau bwyd)
- Neuaddau bwyta mewn canolfannau siopa
- Stadia chwaraeon
- Ffreuturau
- Tafarndai
- Swyddfeydd gyda ffreuturau, caffis neu gyfleusterau cegin
- Ysgolion, colegau, carchardai, cartrefi nyrsio ac ysbytai ac
- Unrhyw weithleoedd eraill sy’n gweini bwyd.

# Cymorth gan WRAP ar gyfer lleihau gwastraff bwyd

**Mae WRAP yn darparu cymorth i fusnesau leihau gwastraff bwyd drwy:**

- The Guardians of Grub, ymgyrch sy'n cefnogi busnesau Gwasanaethau Lletygarwch a Bwyd i leihau'r symiau syfrdanol o fwyd a gaiff ei wastraffu bob blwyddyn.
  *guardiansofgrub.com*

- Map trywydd a phecyn adnoddau yw'r WRAP Food Waste Reduction Roadmap Toolkit, sy'n helpu busnesau bwyd i weithredu mewn modd wedi'i dargedu i leihau gwastraff yn eu gweithrediadau eu hunain, yn eu cadwyn gyflenwi, a chan eu cwsmeriaid.
  *wrap.org.uk/resources/tool/food-waste-reduction-roadmap-toolkit*






# Crynodeb

- 6 Ebrill 2024
- Yn berthnasol i holl weithleoedd
- Gofyniad i wahanu ar gyfer ailgylchu
- Dim gwastraff bwyd i garthffosydd
- Gwaharddiadau ar ffrydiau gwastraff penodol yn cael eu hanfon i losgi a thirlenwi



# Ailgylchu yn y Gweithle (Cymru)

Ailgylchu yn y Gweithle (Cymru)

Chwefror 2024

# Newid Mawr ynteu addasiad graddol, cynnil?

Biffa

2013/2014 Ymgynghoriad Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd: roedd yn cynnwys ymgynghoriad ar y ddyletswydd i wahanu.

Daeth Bil yr Amgylchedd yn Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – disgwyliwyd i reoliadau gael eu gwneud ar ôl Ionawr 2017

Ymgynghoriad yn 2019 ar Gynyddu Ailgylchu Busnesau yng Nghymru: nodi'r opsiwn a ffefrir – sefydlu tîm Gweithredu'r Prosiect ac yna fe'i gohiriwyd

2022-2023 Ymgynghoriad ar Ddeddfwriaeth Ailgylchu yn y Gweithle a Chod Ymarfer Statudol – Ailddechrau tîm Gweithredu'r Prosiect

WESA

welsh environmental services association

# Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru (*Welsh Environmental Services Association*/WESA)

Mae'r gofynion ailgylchu yn y gweithle wedi bod yn destun trafodaeth yn rheolaidd yng nghyfarfodydd WESA (3–4 gwaith y flwyddyn)

Mae aelodau WESA wedi adolygu'r amrywiol ymgynghoriadau ac mae ymatebion wedi cael eu llunio.

Mae codi ymwybyddiaeth wedi bod yn allweddol

Diweddariadau rheolaidd gan Lywodraeth Cymru, WRAP Cymru, a CNC


WESA


# Cosbau

Biffa

| Trosedd | Cosb Ariannol Benodedig Arfaethedig |
|---|---|
| Mae meddiannydd eiddo annomestig yng Nghymru yn methu â chyflwyno gwastraff i'w gasglu (boed gan awdurdod casglu gwastraff neu gan unrhyw berson arall) yn unol â'r gofynion gwahanu cymwys. (ein cwsmeriaid) | £300 |
| Mae person sy'n gweithredu drwy fusnes sy'n casglu gwastraff a reolir, neu sy'n derbyn, yn cadw, yn trin neu'n cludo gwastraff a reolir, o eiddo annomestig yn methu â gwneud hynny yn unol â'r gofynion gwahanu cymwys. | £500 |
| Mae gweithredwyr cyfleusterau llosgi a chyd-losgi yn derbyn unrhyw rai o'r deunyddiau a bennir sydd i'w casglu ar wahân yn eu cyfleusterau. | £500 |
| Mae gweithredwyr cyfleusterau tirlenwi yn derbyn unrhyw rai o'r deunyddiau a bennir sydd i'w casglu ar wahân a/neu unrhyw bren yn eu cyfleusterau. | £500 |
| Mae meddiannydd eiddo annomestig yng Nghymru yn gwaredu gwastraff bwyd, neu'n fwriadol yn achosi neu'n caniatáu i wastraff bwyd gael ei waredu, i garthffos. | £300 |

# Siwrne ar Lefel Uchel





## Ionawr 2024

- Rhoi’r gorau i werthu Ailgylchu Sych Cymysg yng Nghymru
- Cwsmeriaid yn dechrau adrodd
- Addysg a chymorth halogiad i gwsmeriaid
- Cyfathrebu â chwsmeriaid am yr eildro gyda dolen i e-lyfryn a phosteri
- Holl gwsmeriaid Ailgylchu Sych Cymysg wedi newid i Bapur a Chardfwrdd

## Chwefror

- Dechrau ail-labelu cynwysyddion
- Rhoi newidiadau ar waith i gwsmeriaid dechau mis Chwefror
- Ffitio dyfais pwyso ar gerbydau
- Danfon cerbydau Bwyd a Gwydr

## Mawrth

- Rhoi newidiadau ar waith i gwsmeriaid dechau mis Mawrth
- Adolygiad dyddiol/wythnosol o’r holl newidiadau

## Ebrill

- Arolwg cwsmeriaid SME
- Dyluniadau cerbydau i gael eu gosod
- Adolygu Galwadau Rhagweithiol
- Proses ail-labelu gyflawn

## Mynd yn fyw: 6ed Ebrill

## Mai

- Gwerthuso cwsmeriaid sydd heb gymryd y gwasanaeth newydd
- Monitro lefelau Halogiad
- Monitro allbwn MRF
- Adolygu cyfraddau DMR ar gyfer cwsmeriaid ag esemptiad

## Beth sy’n newid?

Mae Llywodraeth Cymru’n cyflwyno rheoliadau newydd sy’n ei gwneud yn ofynnol i holl fusnesau wahanu deunyddiau ailgylchadwy allweddol.

Bydd yn ofynnol nawr i Biffa gasglu, storio a phrosesu deunyddiau eilgylch ar wahân.

O 06/04/2024, bydd holl finiau Ailgylchu Sych Cymysg yng Nghymru’n cael eu newid i finiau Papur a Cherdyn.

Mae’r cwsmer yn galw am wasanaeth Plastig a Chaniau, a bydd angen inni ofyn am hyn drwy’r sianel gwerthiant perthnasol.

# Profiad cwsmeriaid a chwynion cyffredin

**Wedi ymgymryd â dadansoddiad sampl o ailgylchu cymysg cwsmeriaid:**

- Cynhwysydd Ailgylchu Sych Cymysg wedi'i ail-labelu ar gyfer Papur a Cherdyn
- Gwasanaethau ychwanegol ar gyfer Metelau Cymysg, Plastigion a Chartonau
- Gwasanaethau'n bodoli eisoes ar gyfer Gwydr a Chasglu Gwastraff Bwyd




**Dryswch ymysg cwsmeriaid ynghylch:**

Mannau cyhoeddus yn yr awyr agored ar y safle / oddi ar y safle, Mannau cyhoeddus dan do

**Problemau casglu:**

Ysbytai a Thai Preswyl

# Thank you

Workplace Recycling Wales
Feb 2024

Simon Rutledge Simon.Rutledge@biffa.co.uk

WESA – Sam Corp s-corp@esauk.org

Busnes Cymru | Business Wales

# Busnes Cymru

## Cael y cymorth y mae ei angen arnoch



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ionawr 2024

# Cymorth Busnes

•Busnes Cymru yw'r gwasanaeth cymorth busnes, wedi'i ariannu'n llawn, gan Lywodraeth Cymru, sy'n helpu busnesau Cymru ac egin entrepreneuriaid gael mynediad at yr wybodaeth, y cyngor, a'r cymorth y mae ei angen arnynt i ddechrau, rhedeg, a thyfu eu busnesau.



•Dim ots ble mae busnes arni yn ei gylch oes, o'r camau cyntaf i gyfnod twf, yn sefydledig, yn ehangu, neu'n aeddfedu, mae gan Busnes Cymru'r sgiliau, y profiad a'r wybodaeth i arwain a chynorthwyo uchelgeisiau'r busnes.

•Mae'r lefel o gefnogaeth yn cael ei deilwra yn ôl angen y busnes ac rydym yn cynnig cyfuniad o gymorth ar-lein ac wyneb yn wyneb, ynghyd â gweithdai a chyngor unigol.

## Beth?

- Cyngor busnes cyffredinol
- Cyngor ar dendro
- Cyngor ar gydraddoldeb, amrywiaeth ac adnoddau dynol
- Cymorth masnachu rhyngwladol
- Porth Sgiliau
- Mentora busnes
- Datgarboneiddio

## Sut?

- Cymorth ar-lein
- Gweithdai a Gweminarau
- Cymorth 1 i 1



# Datgarboneiddio Cefnogaeth

- Effeithlonrwydd ynni
- Systemau Rheoli Amgylcheddol
- Cyfrifiadau allyriadau
- Cynlluniau lleihau carbon
- Ynni adnewyddadwy
- Rheoli gwastraff
- Sgiliau Gwyrdd
- Trafnidiaeth Gynaliadwy
- Cydymffurfio â'r gyfraith
- Addewid Twf Gwyrdd

green growth pledge

addewid twf gwyrdd






Get fully funded support for starting your own business by clicking on the link above




Get fully funded support for starting your own business by clicking on the link above

Busnes Cymru | Business Wales



gareth.davies@businesswales.org

03000 6 03000

busnescymru.llyw.cymru
businesswales.gov.wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Unrhyw gwestiynau?



# Diolch
# Thank you

WalesRecycles@wrap.org.uk

CymruYnAilgylchu@wrap.org.uk

WRAP Cymru

Cymru yn ailgylchu
Wales recycles

Gweithredu ar Hinsawdd Cymru
Climate Action Wales